# Model newydd ar gyfer Cymraeg Ail Iaith?

Alex Lovell
Adran Y Gymraeg, Prifysgol Abertawe

O dan nawdd Ysgoloriaeth y Ganolfan Ddoethurol ar gyfer Ieithoedd Celtaidd (AHRC)

## Llenyddiaeth Gefndirol

Ymddengys yn y byd addysg yng Nghymru fod consensws nad yw addysgu na dysgu Cymraeg fel ail iaith yn effeithiol yn gyffredinol (W. G. Lewis, 2010b, para. 1). Mae adolygiad Davies (2013, t. 1), *Un Iaith i Bawb*, wedi atgyfnerthu'r consensws hwn, gan nodi mai Cymraeg Ail Iaith yw'r pwnc lle ceir y lefelau cyrhaeddiad isaf. Pwysleisiodd Davies (2013, t. 1) fod angen newid sylfaenol, a hynny ar frys, am ei bod yn "unfed awr ar ddeg ar Gymraeg ail iaith."

Er bod nifer o bolisïau iaith ac addysg wedi'u gweithredu gan Lywodraeth Cymru o fewn y pedwar degawd diwethaf, ac er bod achosion unigol o ddysgu Cymraeg yn rhagorol mewn ysgolion uwchradd Saesneg, ymddengys nad yw darpariaeth y gyfundrefn bresennol ar gyfer addysgu Cymraeg fel ail iaith yn ddigonol o hyd i gynhyrchu siaradwyr sydd yn medru defnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r dosbarth dysgu. Ymddengys hefyd nad yw darpariaeth bresennol Cymraeg Ail Iaith yn ddigonol i gyrraedd nod Llywodraeth Cymru (2017) i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Wrth ystyried y gagendor rhwng polisi ac arfer, cyflwynir yr achos dros newid pellgyrhaeddol yng nghyfundrefn Cymraeg Ail Iaith, er mwyn cefnogi'r ddadl fod angen cyflwyno model amgen, sy'n canolbwyntio ar ddysgu cynnwys ac iaith mewn ffordd integredig, i'w weithredu mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yng Nghymru. Canolbwyntia'r ymchwil hon ar gynllun unigryw sydd ar waith mewn ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg yng Nghymru ("Ysgol X") lle darperir darpariaeth CLIL ("Y Cwrs Carlam") i garfan benodol o ddisgyblion yn CA3. Cymharwyd y model amgen hwn a gynigir gan Ysgol X â'r model traddodiadol a gynigir mewn ysgol gymharus arall ("Ysgol Y") er mwyn mynd i'r afael ag ateb y cwestiynau ymchwil (gweler 'Dulliau').

## Moeseg

Cwblhawyd adolygiad moesegol llai beichus o'r cynnig ymchwil llawn gan Bwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau, Prifysgol Abertawe, er mwyn sicrhau bod yr ymchwil yn diwallu egwyddorion moesol allweddol. Gwnaed yn sicr bod gan yr ymchwilydd ganiatâd y Prif Athro a Phennaeth Adran y Gymraeg, fel porthgeidwaid, i gynnal y gwaith maes yn y ddwy ysgol. Yn ogystal â hyn, gwnaeth yr ymchwilydd gais i'r Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) i sicrhau dystysgrif i allu gweithio gyda phlant a lluniwyd ffurflen ganiatâd i'w chwblhau gan y disgyblion a'u rhiant / gwarcheidwad i sicrhau eu cysyniad gwybodus cyn cynnal y prawf cyfannu.

| Dosbarth | | Sgôr Gyfanswm Prawf Cyfannu (%) | Sgôr Gyfanswm Prawf Darllen Saesneg (%) | Disgyblion sydd â'r hawl i PYDd (%) |
|---|---|---|---|---|
| Dosbarth A: Set 1 Ysgol X | M | 33.2 | 98.7 | 0.0 |
| Dosbarth B: Cwrs Carlam Ysgol X | M | 65.9 | 115.4 | 9.5 |
| Dosbarth C: Set 1 Ysgol Y | M | 27.0 | 101.8 | 12.1 |

**Tabl 1.** Canlyniadau'r prawf cyfannu; prawf darllen Saesneg a PYDd fesul dosbarth

## Dulliau

**Cwestiynau ymchwil:**

1. Ydy'r Cwrs Carlam yn sicrhau cyrhaeddiad uwch yn y Gymraeg o'i gymharu â'r model CAI traddodiadol a gyflwynir mewn ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg arall?
2. Os felly, a ydy hyn yn digwydd ar draul cyrhaeddiad mewn pynciau cwricwlaidd eraill, megis Saesneg a Hanes?
3. Oes gan ddisgyblion y Cwrs Carlam hyfedredd ieithyddol cyffredinol uwch yn y Gymraeg, o'u cymharu â'u cyfoedion sydd wedi dilyn y model traddodiadol, sef darpariaeth Cymraeg Ail Iaith yn unig?
4. I ba raddau y gellir priodoli effeithiolrwydd y Cwrs Carlam i'w ddarpariaeth yn hytrach nac unrhyw ffactorau eraill?

**Dulliau ymchwil:**

Mewnbwn:

- Holiadur a chyfweliad gyda Phennaeth Adran y Gymraeg yn Ysgol X ac Ysgol Y.
- Cymharu'r ysgolion o ran darpariaeth Gymraeg; ethos dwyieithog; hyfforddiant i staff a threfniadau pontio.
- Ymweliad i arsylwi ethos dwyieithog.

Allbwn:

- Prawf cyfannu i fesur hyfedredd iaith cyffredinol yn y Gymraeg.
- Cymharu canlyniadau TGAU – Cymraeg Ail Iaith; Saesneg a Hanes.
- Cymharu sgoriau darllen Saesneg a data PYDd.

## Canlyniadau

**Cyrhaeddiad Academaidd**

- Cyflawnodd dosbarth y Cwrs Carlam raddau uwch mewn Cymraeg Ail Iaith, Saesneg a Hanes ar gyfartaledd o'u cymharu â'u cyfoedion cyffelyb mewn addysg brif ffrwd.

**Hyfedredd Ieithyddol Cyffredinol yn y Gymraeg**

- Perfformiodd disgyblion y dosbarth carlam yn sylweddol uwch yn y prawf cyfannu na'u cyfoedion yn y ddau ddosbarth Cymraeg Ail Iaith (Set 1) arall.


**Ffactorau eraill i'w hystyried**

Ffactorau mewnol:

- Mae gan Ysgol X ymagwedd fwy effeithiol a chyson at ddatblygu ei hethos dwyieithog.
- Mae gan Ysgol X nifer o staff y mae'n gallu manteisio arnynt er mwyn addysgu elfennau o'r cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae trefniadau pontio'r Gymraeg rhwng CA2 a 3 yn Ysgol X yn rhai effeithiol.

Ffactorau allanol:

- Sgoriau darllen Saesneg – Canfuwyd bod gan y dosbarth carlam allu darllen ychydig yn uwch yn yr iaith gyntaf ar gyfartaledd, o'u cymharu â'u cyfoedion model traddodiadol.
- PYDd – Ni chanfuwyd cydberthynas rhwng statws sosio-economaidd y disgyblion a'r ffrwd iaith y maent yn perthyn iddi.




**Ffigur 1.** Canlyniadau TGAU fesul dosbarth

## Trafodaeth

- Ceir tystiolaeth sy'n awgrymu bod astudio cynnwys pynciol yn ddwyieithog, yn ogystal ag astudio'r Gymraeg fel pwnc, yn fwy effeithiol o ran datblygu hyfedredd cyffredinol yn y Gymraeg nag astudio'r Gymraeg fel pwnc am nifer gyfyngedig o oriau yn unig. Mae hyn yn cefnogi'r tueddiad a amlygwyd yn yr ymchwil a adolygwyd ar addysg drochi a CLIL.
- Ceir hefyd dystiolaeth sy'n awgrymu nad yw disgyblion rhaglenni CLIL o dan anfantais o'u cymharu â disgyblion rhaglenni traddodiadol o ran dysgu a deall cysyniadau pwnc-benodol (Bonnet, 2004; Breidbach & Viebrock, 2012; Vollmer et al. 2006) a bod enghreifftiau hyd yn oed lle mae disgyblion CLIL yn ennill gwybodaeth gystal neu uwch yn y pwnc cwricwlaidd (Wode, 1999; Koch, 2005).
- Mae Ysgol X yn ymgorffori ymagwedd holistaidd at ddatblygu'r Gymraeg nid yn unig fel cyfrwng dysgu ar draws y cwricwlwm ond hefyd fel iaith fyw a ddefnyddir yn rheolaidd ar draws yr ysgol gyfan.
- Mae gan Ysgol X nifer sylweddol o staff sydd yn medru siarad ac addysgu yn Gymraeg y mae'n gallu manteisio arnynt i gyflwyno elfennau o'r cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae cynllun pontio Ysgol X rhwng CA2 a 3 wedi gwella a chysoni safonau disgyblion yn y Gymraeg erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 7.

## Casgliadau

**Cyfeiriadau at bolisi ac arfer**

- Ymddengys CLIL yn ffordd hyblyg o sicrhau rhagor o gyswllt â'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm (Somers, 2018) a datblygu 'cymhwysedd ffwythiannol' (Pérez-Cañado, 2012) yn yr iaith, heb amharu ar nifer yr oriau dysgu a neilltuir i gyflwyno pynciau cwricwlaidd eraill. Dylid ystyried y Cwrs Carlam yn fodel o arfer da.
- Dylid ystyried sut y mae datblygu'r Gymraeg nid yn unig fel cyfrwng dysgu ond hefyd fel iaith fyw a ddefnyddir ar draws yr ysgol gyfan.
- Rhaid blaenoriaethu hyfforddiant athrawon er mwyn ymateb i'r galw am ragor o athrawon Cymraeg a athrawon pyncIol sy'n medru addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Rhaid gwella trefniadau pontio rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd er mwyn leihau nifer y dysgwyr sydd yn symud o'r cyfrwng Cymraeg i'r cyfrwng Saesneg.

**Ymchwil bellach**

- Dylid comisiynu ymchwil bellach i astudio effaith CLIL ar gyrhaeddiad academaidd a hyfedredd ieithyddol disgyblion sydd â lefelau gwahanol o allu.

## Cyswllt

Alex Lovell
Adran y Gymraeg, Prifysgol Abertawe
a.e.lovell@abertawe.ac.uk
01792 (60)6942

## Cyfeirnodau

Davies, S. (2013). *Un Iaith i bawb: Adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4*. http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/130926-review-of-welsh-second-lan-cy.pdf.

Koch, A. (2005). *Bilingualer naturwissenschaftlicher anfangsunterricht: Entwicklung, erprobung, evaluation,* (traethawd PhD). Prifysgol Kiel.

Lewis, G. W. (2010). *Welsh second language in the National Curriculum: The case of teaching Welsh in English-medium schools*. Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2017). *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*. http://gov.wales/topics/welshlanguage/welsh-language-strategy-and-policies/cymraeg-2050-welsh-language-strategy/?skip=1&lang=cy.

Pérez-Cañado, M. L. (2012). CLIL research in Europe: Past, present, and future. *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism, 15*(3), 315-341. doi: 10.1080/13670050.2011.630064

Somers, T. (2018). *Content and Language Integrated Learning: A new direction for the present and future of Welsh language teaching?* Papur a gyflwynwyd yn Y Gymraeg mewn Addysg cyfrwng Saesneg, Neuadd Gregynog.

Wode, H. (1991). Language learning in European immersion classes. Yn J. Masih (Gol.), *Learning through a foreign language: Models, methods and outcomes* (tt. 16-29). Llundain: CILT.

© Poster Template by Genigraphics® 1.800.790.4001 www.genigraphics.com